



Sgiliau i Gymru

Cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Pecyn cymorth a gwybodaeth i gefnogi
cyfathrebu â rhanddeiliaid yn y sector

City & 
Guilds

eal

Amcangyfrifir bod **13,000**
o gwmnïau yn gweithio yn
y sector, sy'n cyflogi mwy
na **130,000 o bobl** ac sy'n
cyfrannu **6.5% at Werth**
Ychwanegol Gros y wlad.

Cynnwys

Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol	03
Pa welliannau sydd ar y gweill	04
Amserlen y diwygiadau	05
Beth rydym eisiau i chi ei wneud	06
Siarad am y sgiliau a'r cymwysterau	07
Eitemau newyddion i bartneriaid a rhwydweithiau	08
Negeseuon Allweddol	09
Enghreifftiau o negeseuon trydar ar y cyfryngau cymdeithasol	10





Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol

Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yw un o'r sectorau cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru.

Amcangyfrifir bod 13,000 o gwmnïau yn gweithio yn y sector, sy'n cyflogi mwy na 130,000 o bobl ac sy'n cyfrannu 6.5% at Werth Ychwanegol Gros y wlad.

Dyna pam y mae Cymwysterau Cymru wedi'i ddewis ar gyfer adolygiad pwysig o'r cymwysterau sydd ar gael yn y diwydiant.

Cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, yw 90% o'r cymwysterau rheoledig sydd ar gael yng Nghymru. Felly, mae angen iddynt adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

Nod yr adolygiad oedd asesu'r cymwysterau sydd ar gael yn y sector a phenderfynu a oedd angen eu newid mewn unrhyw ffordd. Roedd rhan fawr o'r gwaith hwn yn cynnwys cyfarfod a sgwrsio â chyflogwyr mawr a bach ledled Cymru, yn ogystal â'r rhai sy'n addysgu'r cymwysterau mewn ysgolion a cholegau, i gael gwybod beth sydd ei angen arnynt.

Hoffem ddiolch i'n holl randdeiliaid yn y sector am y gefnogaeth maent wedi'i rhoi drwy'r adolygiad o'r sector a'r rhan y maent yn ei chwarae o ran helpu i arwain y ffordd i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn diwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a chanolfannau darparu ledled Cymru.

Diolch yn arbennig i Gymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain a'r Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid am eu harweiniad doeth a'u llywio gofalus. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.





Pa welliannau sydd ar y gweill

Mae Cymwysterau Cymru wedi gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol y diwydiant drwy benodi City & Guilds, EAL a CBAC i gydweithio er mwyn datblygu cyfres newydd o gymwysterau y gellir eu hariannu ym maes Adeiladu a Pheirianeg y Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. Bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu i symleiddio'r sefyllfa gymhleth sy'n golygu bod mwy na 400 o gymwysterau ar gael yn y sector.

Mae'r cydweithrediad yn dwyn ynghyd gryfder cyrff dyfarnu blaenllaw ym maes cymwysterau a datblygu sgiliau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig gyda'r nod cyffredin o rymuso pobl ar ffurf cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Cymwysterau sy'n barod i gael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021:

- TGAU
- Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel 2
- Cymhwyster Cynnydd mewn Adeiladu Lefel 2
- Cymhwyster Cynnydd mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 2
- Adeiladu Lefel 3 Dwy flynedd
- Adeiladu Lefel 3 Tair blynedd
- Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 Tair blynedd (Plymio a Gwresogi)
- Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 Pedair blynedd (Gosod Systemau ac Offer Electro-dechnegol)

Cymwysterau sy'n barod i gael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022:

- Safon UG a Safon Uwch

Diben y cymwysterau newydd yw helpu i gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr drwy wneud dysgwyr yn fwy parod ar gyfer gwaith.

Byddwn yn helpu i wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- creu cymwysterau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr drwy eu rhoi wrth galon y broses ddatblygu
- cefnogi ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant drwy'r newidiadau y bydd angen iddynt eu gwneud
- mabwysiadu strategaeth asesu symlach i ysgafnhau'r baich ar gyflawni er mwyn rhoi mwy o amser ar gyfer addysgu
- darparu llwybrau cynnydd clir i ddysgwyr er mwyn iddynt allu gweld eu llwybr at astudio pellach neu at waith
- helpu i gyflawni'r uchelgais o rymuso cenedl ddwyieithog drwy ddarparu adnoddau dysgu, asesiadau a chymorth canolfan dwyieithog.





Amserlen y diwygiadau

Er mwyn helpu i baratoi canolfannau, darparwyr hyfforddiant a dysgwyr, rydym yn bwriadu cynnal y gweithgareddau canlynol:



Awst – Medi 2019

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd City & Guilds/EAL yn cynnal cyfres o weithgareddau ymgynghori gyda chanolfannau a rhanddeiliaid i drafod cynnwys cymwysterau ac asesu yn fwy manwl.

Tachwedd 2019

Bydd City & Guilds/EAL yn gwahodd canolfannau a rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn arolwg fel rhan o'r broses ymgynghori.

Rhagfyr 2019

Bydd City & Guilds/EAL yn dechrau cyflwyno manylebau cymwysterau drafft i Cymwysterau Cymru.

Mawrth 2020

Bydd gwefan ddwyieithog newydd 'Sgiliau i Gymru' City & Guilds/EAL yn mynd yn fyw gyda disgrifiadau o gymwysterau. Byddwn yn dechrau darparu digwyddiadau a gweminarau dros amser.



Haf 2020

Bydd City & Guilds/EAL yn parhau i gyflwyno cymwysterau drafft fesul cam i Cymwysterau Cymru – bydd fersiynau drafft o lawlyfrau manylebau ar gyfer cymwysterau ar gael dros y cyfnod hwn.

Rhagfyr 2020

Mae Cymwysterau Cymru'n bwriadu cymeradwyo'r cymwysterau ar yr adeg hon, a bydd dogfennau allweddol a llawlyfrau manylebau terfynol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwanwyn 2021

Cynhelir digwyddiadau hyfforddi ar gyfer canolfannau sy'n awyddus i ddarparu'r cymwysterau newydd.

Bydd y gwaith o gyflwyno ceisiadau cymeradwyo canolfannau yn dechrau.


Medi 2021

Bydd y gyfres newydd o gymwysterau yn cael ei darparu i ddysgwyr.



Medi 2022

Darparu Safon Uwch /UG newydd i ddysgwyr.





Beth rydym eisiau i chi ei wneud

Diolch am eich diddordeb mewn cefnogi'r cymwysterau pwysig hyn. Fel partner gwerthfawr, mae eich sefydliad yn hanfodol o ran lledaenu'r neges i'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu a pheirianeg y gwasanaethau adeiladu ar hyn o bryd o safbwynt annog busnesau a sefydliadau eraill i ddeall y cymwysterau a'u defnyddio fel rhan o'u rhaglenni prentisiaeth pan fyddant yn barod o fis Medi 2021 ymlaen.

Mae llawer o bethau y gallwch chi eu gwneud i helpu i wneud y rhaglen hon o newidiadau yn llwyddiant. Rydym wedi cynnwys rhai adnoddau cychwynnol yn y pecyn cymorth hwn i'w gwneud mor syml â phosib i chi ein cefnogi drwy ledaenu'r gair er mwyn meithrin ymddiriedaeth yn y cymwysterau ac ysgogi rhyngweithio drwy gynnwys eich timau a rhwydweithiau.

Tri cham hawdd at gymorth:

1. Defnyddiwch yr erthyglau yn y pecyn cymorth hwn ar eich gwefan, neu greu eich pecyn eich hun o'r adran negeseuon allweddol
2. Defnyddiwch eich sianeli cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan newydd Sgiliau i Gymru, a chefnogi'r cymwysterau datblygu
3. Gofynnwch i'ch timau a'ch cysylltiadau yn eich rhwydwaith i gofrestru i gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth Sgiliau i Gymru drwy eu cyfeirio at wefan skillsforwales.wales.

Rydym yn gwerthfawrogi eich help i ledaenu'r gair am y newidiadau sy'n dod i'r cymwysterau newydd ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Gobeithio y bydd y pecyn hwn yn eich galluogi a'ch grymuso i ddefnyddio eich sianeli a'ch dylanwad i dynnu sylw at y gwelliannau er mwyn codi hyder cyflogwyr, dysgwyr a rhieni yn y cymwysterau newydd.



Siarad am y sgiliau a'r cymwysterau

Er mwyn eich helpu i ledaenu'r neges am y newidiadau i'r cymwysterau, rydym wedi drafftio dau ddarn o destun: **Un eitem newyddion ar gyfer eich partneriaid a'ch rhwydweithiau, ac un darn byrrach o newyddion.**



Eitemau newyddion i bartneriaid a rhwydweithiau

> Siarad am y sgiliau a'r cymwysterau

Mae cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg y Gwasanaethau Adeiladu y gellir eu hariannu yn cael ei datblygu er mwyn diwallu anghenion sgiliau Cymru yn well. Bydd yn barod i gael ei haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2021 ymlaen.

> Symleiddio sefyllfa gymwysterau sy'n gymhleth

Nod y newid yw symleiddio'r sefyllfa gymhleth o dros 400 o gymwysterau ym maes adeiladu a pheirianeg y gwasanaethau adeiladu yng Nghymru. Mae'r amrywiaeth presennol o gymwysterau yn darparu clytwaith dryslyd o opsiynau sgiliau a chynnydd ar gyfer dysgwyr.

Mae City & Guilds, EAL a CBAC yn gweithio gyda chyflogwyr, cynlluniau cardiau sgiliau a'r corff pennu safonau i greu amrediad newydd o gymwysterau gyda dewisiadau cynnydd clir i ddysgwyr a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y gweithle modern.

> Y cymwysterau

Mae'r cymwysterau wedi'u cynllunio ar gyfer cwricwlwm modern i helpu i ddiogelu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen yn y diwydiant amgylchedd adeiledig at y dyfodol.

Mae dewisiadau academiaidd yn cael eu creu gyda chymwysterau TGAU, AS a Lefel A.

Mae'r dewisiadau galwedigaethol yn dechrau gyda chymhwyster Lefel 2 Sylfaen mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys dau faes masnach o ddiddordeb, a sgiliau cyflogadwyedd. Ar ôl i ddysgwyr ennill y cymhwyster hwn, byddant yn gallu symud i arbenigedd masnach ar Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth. Bydd y rheini sydd heb gael prentisiaeth erbyn eu hail flwyddyn yn gallu

cyflawni'r Cymhwyster Datblygu i gryfhau eu sgiliau masnach mewn un maes. Bydd nifer o lwybrau masnach ar gael i golegau a darparwyr hyfforddiant ddewis o'u plith a'u cyflenwi i'w dysgwyr.

> Cymryd rhan

Mae sefydliadau yn y diwydiant yn cael eu hannog i ofyn i'w staff gymryd rhan yn y gwaith o lunio'r cymwysterau hyn a chodi ymwybyddiaeth o'r newidiadau ar draws eu rhwydweithiau a'u timau.

Chwiliwch Sgiliau i Gymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cymwysterau hyn ac i gael gwybodaeth a newyddion rheolaidd am ddigwyddiadau.

Fflach Newyddion

Mae cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg y Gwasanaethau Adeiladu y gellir eu hariannu yn cael ei datblygu er mwyn diwallu anghenion sgiliau Cymru yn well a bydd yn barod i gael ei haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2021 ymlaen.

Bydd y newid, a luniwyd gyda chyflogwyr, yn symleiddio'r sefyllfa gymhleth sydd ohoni yng Nghymru ar hyn o bryd lle ceir mwy na 400 o gymwysterau, i ddarparu cymwysterau a llwybrau cynnydd clir a fydd yn paratoi dysgwyr yn well ar gyfer astudio pellach a symud ymlaen i'r gweithle.

Chwiliwch Sgiliau i Gymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cymwysterau hyn a chael gwybodaeth a newyddion rheolaidd am ddigwyddiadau.





Negeseuon allweddol

- ➔ Symleiddio'r sefyllfa sy'n cynnwys 400 a mwy o gymwysterau
- ➔ Cymwysterau wedi'u cynllunio gyda diwydiant
- ➔ Grymuso cenedl ddwyieithog
- ➔ Recriwtiaid sy'n barod ar gyfer gwaith
- ➔ Gwybodaeth a brofir drwy gyfrwng sgiliau ymarferol
- ➔ Asesiad symleiddio
- ➔ Cynnydd ystyrlon i ddysgwyr





Enghreifftiau o negeseuon trydar ar y cyfryngau cymdeithasol:

Argymhellir defnyddio'r #sgiliauigymru diofyn.



@cityandguilds, @eal a @CBAC_Cymraeg – codi safonau ym maes cymwysterau #Adeiladu #Peirianeg y Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. #sgiliauigymru

I ddysgu mwy am y cymwysterau newydd, cofrestrwch ar gyfer ein diweddariadau e-bost: sgiliauigymru.cymru/cy/cofrestrwch



Mae gwefan #sgiliauigymru bellach yn fyw. #cymwysterau #adeiladu #perianeg y gwasanaethau adeiladu

Cofrestrwch i dderbyn diweddariadau e-bost: sgiliauigymru.cymru/cy/cofrestrwch

